

## Ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Ddatganoli Darlledu

### Ymateb Cylch yr Iaith:

Gwerthfawrogwn y cyfle i gyflwyno sylwadau ar gwestiwn datganoli darlledu. Dymunwn ddatgan yn y lle cyntaf ein bod o blaid datganoli darlledu i Gymru; yn wir, credwn fod hawl gan y genedl Gymreig i fod yn gyfrifol am ei chyfundrefn ddarlledu ei hun, a'i bod yn ddyletswydd arni i dderbyn y cyfrifoldeb hwn. Ymhellach, rydym o'r farn bod sefydlu Awdurdod Darlledu Cymreig yn gwbl hanfodol os yw hunaniaeth ddiwylliannol Cymru i barhau a ffynnu.

Y drefn ddarlledu Brydeinig Eingl-ganolog sy'n rhannol gyfrifol am sefyllfa argyfyngus Cymru o ran erydu ei hunaniaeth a'i hymwybyddiaeth genedlaethol a thanseilio'u chenedligrwydd trwy wanychu ei hiaith a'i diwylliant. Hyrwyddir Prydeindod a safbwyntiau Eingl-ganolog mewn amryfal ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol, isganfyddol, a'r canlyniad yw gosod Cymreictod yn ei wahanol weddau mewn safle israddol i'r byd Eingl-Americanaidd. Disgrifiwyd y diffyg cyfryngau cyfathrebu Cymreig yng Nghymru gan Ron Davies, y cyn-Aelod Cynulliad, fel diffyg diwylliannol ("*We have a cultural deficit in Wales*") a'i fod, wrth reswm, yn ddiffyg sylfaenol a difrifol ym mywyd cymdeithasol a gwleidyddol y genedl. Mae sefyllfa o'r fath yn annaturiol, a chan ei bod yn effeithio'n negyddol ar gyflwr ieithyddol a diwylliannol ein cenedl ac yn hyrwyddo safbwyntiau a gwerthoedd gwahanol i eiddo'n cenedl ni'n hunain, dylid ei chywiro gynted ag y bo modd.

Dylai fod yn amlwg i bawb fod angen i benderfyniadau ar ddarlledu gael eu cymryd gan gyrff Cymreig yng Nghymru. Heb reolaeth lwyr dros y cyfryngau darlledu fel cenedl, byddwn yn parhau'n agored i gyfundrefn sydd â'i chanolbwynt grym y tu allan i Gymru. Nid gwasanaethu cenedl y Cymry yw *raison d'être* y gyfundrefn ddarlledu Brydeinig a Llundain-ganolog. Mae hanes y gyfundrefn yn dangos yn glir ei bwriadau a'i hamcanion Eingl-ganolog yng ngwledydd Celtaidd Prydain. Mae ideoleg Prydeindod ar ei gryfaf ac yn fwyaf effeithiol yn y cyfryngau darlledu yng Nghymru, ac yn ôl yr athronydd, Yr Athro J. R. Jones, yn ei astudiaeth o agweddau Prydeinig yng Nghymru (*Prydeindod*, Llyfrau'r Dryw Christopher Davies, Llandybïe 1966) rhaid inni, os ydym i barhau fel Pobl â'n hunaniaeth ein hunain, "dorri gafael ideoleg Prydeindod". Un ffordd y gallai Cymru gyflawni hynny, a chyfrannu i'r gorchwyl o ddiogelu ei hiaith a'i diwylliant, yw trwy fynnu bod yn gyfrifol am ddarlledu a sefydlu cyfryngau a fyddai'n fodd inni ein gweld ein hunain a'r byd trwy lygaid Cymreig.

Pe sefydlid Awdurdod Darlledu Cymreig, gwasanaethu Cymru fyddai'r rheswm dros ei fodolaeth. Byddai derbyn yr egwyddor sylfaenol hon, a sefydlu corff o'r fath, yn ergyd dros ddemocratiaeth. Nid yw democratiaeth yn bosibl os yw'r grym dros y cyfryngau darlledu ym meddiant cenedl arall.

Mae datganoli'r gyfundrefn ddarlledu yr un mor bwysig â datganoli grym gwleidyddol. Nid oes neb yn gwybod hyn yn well na San Steffan. Mae datganiad Margot James, y Gweinidog dros Faterion Digidol, yn crisialu agwedd imperialaidd San Steffan yn berffaith. Does dim amwysedd yn ei barn hi o gwbl - y mae darlledu i aros yn gyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol: "*It's the sort of thing which brings the union together and it will remain a reserved power.*"

Rydym yn gweld hyn yn glir yn yr holl drafodaethau ar Brexit yn ddiweddar. Dim ond parhad yr '*union*' sy'n bwysig i San Steffan ac nid buddiannau Cymru, yr Alban nac Iwerddon.

Nid yw'r hyn yr ydym yn gofyn amdano yn afresymol ac amhosibl. Mae'n cais yn un cyfiawn. Gwnaeth pwyllgor trawsbleidiol Comisiwn Silk – y comisiwn roedd Llywodraeth Prydain ei hunan wedi'i sefydlu – ddatgan o blaid datganoli pwerau darlledu i Gymru. A gwnaeth arolwg barn gan YouGov y llynedd ddangos bod 65% o bobl yng Nghymru yn ffafrio datganoli darlledu i'n llywodraeth ni.

Rhaid i'n cyfryngau fod yn adlewyrchiad ohonom ni fel cenedl – adlewyrchiad o'n gwerthoedd a'n hethos ni – a chaniatáu i ni weld y byd drwy ffenestr Gymreig. Ar hyn o bryd rydym yn cael ein trin fel rhan o Loegr gan ddarlledwyr Prydeinig, a newyddion a phropaganda Prydeinig sy'n cael ei ddarlledu i ni yng Nghymru – llais y sefydliad a dogn go dda o arlwy Eingl-Americanaidd.

Mae'r gyfundrefn ddarlledu bresennol yn arwain at ddiffygion mawr yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. (ac wrth ddarlledu rydym yn golygu ystod eang o gyfryngau cyfathrebu a llwyfannau digidol a'r wasg brint – nid dim ond un sianel deledu (S4C) neu orsaf radio (Radio Cymru)).

Rhaid gofyn pam fod cymaint o anwybodaeth ymysg y Cymry ynghylch pwerau ein llywodraeth ddatganoledig. Mae'r ateb yn syml – am ein bod ni'n cael ein boddi gan newyddion Prydeinig ac agweddau Prydeinig. Mae'r bwletinâu newyddion a dderbyniwn yn ddrych o newyddion Lloegr.

Mae rhaid i ni edrych beth sydd o'i le yng Nghymru. San Steffan sy'n dal yr awenau, a dyma sy'n gyfrifol am y merddwr darlledu yng Nghymru. Er bod S4C wedi cyflawni rôl allweddol, ar ôl bron i ddeugain mlynedd, dim ond un sianel deledu sydd gennym ac un orsaf radio lawn amser gydag ychydig oriau ar ail orsaf. Ni allwn gymryd ein hunig sianel deledu Gymraeg yn ganiataol gan fod sicrwydd ariannol ac annibyniaeth olygyddol S4C yn y fantol.

Cymharwch y datblygiadau yng Ngwlad y Basg – mae ganddynt 6 sianel deledu a 5 gorsaf radio. Catalunya wedyn - 6 sianel deledu a 3 gorsaf radio.

Mae'r diffyg ar blatfformau eraill yn drychinebus, a Chymru ymhell ar ôl yn y chwyldro digidol. Os yw'r Gymraeg i fyw a ffynnu i'r dyfodol, mae'n rhaid ei defnyddio ar draws pob cyfrwng. Gofid mawr rhieni sy'n ymdrechu i fagu eu plant mewn cyd-destun Cymraeg yw'r llif di-dor o ddiwylliant Eingl-Americanaidd sy'n llifo i'w teclynnau a'u hamddifadu o'r iaith a'r ethos Cymraeg.

Rhaid i ni felly beidio â gadael i'n cyfryngau gael eu rheoli gan bwerau allanol - y BBC a'i ffafriaeth o'r sefydliad Seisnig, y corfforaethau mawr, na'r cwmnïau cyfalafol. Mae hon yn frwydr dros ddyfodol ein hiaith, ein cymunedau a'n democratiaeth. Erbyn heddiw mae grym y cyfryngau torfol yn llawer mwy difaol ac yn dinistrio cymunedau a'u gwerthoedd. Gydag ewyllys a'r cymhelliad gellid gwrthweithio hyn yng Nghymru. Y cam cyntaf yw datganoli pwerau darlledu i'n llywodraeth ni fel bod penderfyniadau ynglŷn â darlledu yng Nghymru yn cael eu gwneud yng Nghymru.

Rydym yn rhagweld y byddai aelodau Awdurdod Darlledu Cymreig yn cael eu dewis drwy broses ddemocrataidd yng Nghymru. Byddai'r corff hwn yn gyfrifol am reoleiddio darlledu ac am strwythur y gwasanaethau. Byddai'n diwallu'n llawn anghenion ieithyddol a diwylliannol y genedl. O'n safbwynt ni yng Nghylch yr Iaith, byddai'n hanfodol ei fod yn creu'r amodau priodol i ddatblygu, cryfhau ac ehangu gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein Cymraeg, gyda llwyfannau digidol a gwasanaethau cymunedol Cymraeg yn rhannau allweddol o'r arlwy.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications  
Committee  
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting  
CWLC DoB11  
Ymateb gan Cylch yr Iaith/ Response from Cylch yr Iaith  
Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith